

Astudiaethau Ffilm a Theledu

Amser – 1.5 awr

Atebwch DDAU gwestiwn.

1. Trafodwch sut y mae ffilmiau archarwyr Marvel yn defnyddio gwahanol *genres* i adrodd eu straeon. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at enghreifftiau penodol yn eu hateb.
2. Yng Ngŵyl Ffilmiau Cannes eleni roedd yn bwnc llosg a allai ffilmiau a grëwyd gan Netflix ac eraill gael cystadlu â'r 'sinema go iawn'. Trafodwch sut y mae llwyfannau ffrydio yn newid y ffordd y mae pobl yn gwyllo rhaglennu Teledu a Ffilmiau yn y gymdeithas gyfoes, gan nodi'r goblygiadau posibl i ddyfodol y diwydiant Ffilm a Theledu.
3. Trafodwch yr elfennau sy'n llunio gramadeg ffilm. Sut y gallent helpu'r gynulleidfa i 'ddarllen' y testun ffilmaidd?
4. Mae ffilmiau dogfennol yn bwysig gan eu bod yn gallu hybu empathi am bobl sydd ar gyrion cymdeithas. Ydych chi'n cytuno? Cyfeiriwch at o leiaf un raglen ddogfen a welsoch.
5. Gan gyfeirio at ffilmiau penodol, trafodwch y 'llofnodion' gweledol/clywedol/naratifol yng ngwaith cyfarwyddwyr ffilm megis Quentin Tarantino, Alfred Hitchcock, Wong Kar-Wai a Werner Herzog. Gall ymgeiswyr ddewis unrhyw gyfarwyddwr.
6. Ystyriwch gyfres ddrama deledu yr ydych wedi'i mwynhau'n fawr, a dadansoddwch yr amrywiol elfennau a gyfrannodd, yn eich barn chi, at ei llwyddiant.